

Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM DALIADAU UNIONGYRCHOL AWST 2021

Mae'r Tîm Cefnogi Taliadau Uniongyrchol wedi bod yn brysur yn diweddarau a gwella ein gwasanaethau ar gyfer pobl leol sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol, yn Gyflogwyr ac yn Gymorthyddion Personol.

Pwy yw'r Tîm Cefnogi Taliadau Uniongyrchol?

Mae Tîm Cefnogi Taliadau Uniongyrchol Cyngor Sir y Fflint yn cefnogi defnyddwyr Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint ar draws pob un o'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r tîm wedi tyfu yn ddiweddar ac nawr yn cynnwys;

Rheolwr y Tîm – Mark Cooper
Swyddogion Cefnogi Taliadau Uniongyrchol
Claire Tuft, Emily Kershaw, Harriet Weir, Sharon Stapley-Jones a Cerys Evans

Cydlynnydd Gweithlu Cymhorthyddion Personol - Gemma Wellstead
Swyddog Cefnogi Cyllid Taliadau Uniongyrchol - Kathy Cocking
Cymhorthydd Cefnogi Busnes - Julie Pickering
Manylion cyswllt: Ffôn: 01352 701100 E-bost: dp.support@flintshire.gov.uk

Beth yw Taliadau Uniongyrchol?

Pan asesir bod dinesydd angen cymorth wedi'i ariannu er mwyn parhau i fyw eu bywyd mor annibynnol â phosibl, mae dau ddewis. Gall Cyngor Sir y Fflint drefnu gwasanaethau i'w helpu. Gall y rhain fod yn wasanaethau fel gwasanaeth dydd, ymweliad gan weithiwr o asiantaeth gofal i gwblhau tasgau iddynt, neu wasanaeth ofal seibiant ar gyfer gofalwr di-dâl.

Yr ail ddewis yw bod yr unigolyn, ei ffrindiau a theulu yn derbyn cefnogaeth er mwyn trefnu cymorth mwy personol sy'n cyd-fynd ag anghenion, blaenoriaethau a ffordd benodol yr unigolyn o fyw. Gall hyn olygu cyflogi rhywun y mae'r unigolyn yn ei ddewis i ddarparu eu cefnogaeth. Gall fod yn berthynas, neu'n ffrind dibynadwy. Neu, efallai eu bod eisiau gwneud trefniadau eraill y maent yn teimlo fyddai'n helpu eu sefyllfa. Er enghraifft, darn o offer, gweithgaredd therapiwtig, gofal seibiant gwahanol, neu gymorth arall ar gyfer gofalwr di-dâl ac ati. Mae'r cyfleoedd yn ddi-ddiwedd. Gelwir hyn yn dderbyn taliad uniongyrchol, a golygai fod gan yr unigolyn fwy o ddewis, rheolaeth a hyblygrwydd dros y cymorth y maent ei angen er mwyn byw eu fersiwn nhw o fywyd da.

Mae nifer o bobl yn dewis derbyn cymysgedd o wasanaethau a gaiff eu trefnu gan y cyngor a Taliadau Uniongyrchol.







Os yw'r unigolyn yn dewis cyflogi Cymhorthydd Personol, cefnogir hwy gan y Tîm Cefnogi Taliadau Uniongyrchol, er mwyn deall eu cyfrifoldebau a rheoli eu trefniadau fel eu bod yn elwa o'r canlyniadau gorau.

Mae Cymhorthydd Personol (CP) yn gweithio mewn partneriaeth â'i gyflogwr er mwyn ei helpu i gyflawni'r pethau sy'n bwysig iddynt; byw bywyd gwell, mwy annibynnol. Mae'r trefniadau mwyaf llwyddiannus ar gyfer Cymhorthydd Personol yn seiliedig ar berthynas gadarn a dibynadwy.

Tudalennau Gwe wedi eu Hailddatblygu a Phorth NEWYDD Cymhorthydd Personol

Taliadau Uniongyrchol

Croeso i Hafan Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint

 <p>Beth yw Taliadau Uniongyrchol?</p> <p>Yn rhoi mwy o ddeuwis ac annibyniaeth i chi o ran y cymorth sydd e' angen amoch</p> <p>Mwy o Wybodaeth</p>	 <p>Cymhorthwyr Personol</p> <p>Gwybodaeth am beth mae bod yn Gymhorthydd Personol yn ei olygu. Geilir cyflogi Cymhorthydd Personol drwy Taliadau Uniongyrchol i gefnogi a galluogi dinasyddion.</p> <p>Mwy o Wybodaeth</p>	 <p>Cyflogi CP</p> <p>Gwybodaeth defnyddiol am gyflogi Cymhorthwyr Personol gyda eich Taliad Uniongyrchol yn Sir y Fflint</p> <p>Mwy o Wybodaeth</p>
 <p>Porth Cymhorthydd Personol</p> <p>Cofrestr CP, chwilio am CP, dysgu ar-lein, cyfleoedd hyfforddiant, gwybodaeth ddefnyddiol a mwy</p> <p>Mwy o Wybodaeth</p>	 <p>Newyddion a Diweddariadau</p> <p>Mwy o Wybodaeth</p>	 <p>Cysylltiadau a Dolenni Defnyddiol</p> <p>Mwy o Wybodaeth</p>

Hafan Taliadau Uniongyrchol

Rydym ni wedi diweddaru ein gwefan, wedi ychwanegu tudalennau newydd ac wedi ei wneud yn fwy atyniadol ac haws i'w ddefnyddio.

Rydym ni hefyd wedi datblygu Porth Cymhorthydd Personol (CP) sy'n cynnwys ein cofrestr CP, chwiliad CP, cyfleoedd dysgu a hyfforddi ar-lein, gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer cyflogwyr a Cymhorthyddion Personol a mwy.

Mae'r gofrestr ar gyfer Cymhorthyddion Personol wedi ei gynllunio i helpu defnyddwyr Taliadau Uniongyrchol a chyflogwyr i ddod o hyd i'r Cymhorthydd Personol gorau iddyn nhw, ond hefyd i helpu Cymhorthyddion Personol i ddod o hyd i waith addas yn y sector gwerth chweil hwn sydd yn tyfu..

Porth Cymhorthydd Personol Cyngor Sir y Fflint

Mae'r Porth Cymhorthydd Personol hwn yn darparu cofrestru o Gymhorthwyr Cymhorthydd Personol (CP) sydd ar gael i'w cyflogi i rai sy'n cael Taliad Uniongyrchol Sir y Fflint. Nod y gofrestr yw helpu dinasyddion a'u teuluoedd i chwilio am CP ac i ganfod y CP gorau ar eu cyfer nhw. Ond hefyd i helpu CP i ganfod cyflogaeth addas yn y sector hwn sy'n datblygu ac sy'n llawn gwobr.

 <p>Cyflogwyr cliciwch yma</p>	 <p>Cymhorthwyr personol cliciwch yma</p>
---	--

 <p>Telerau ac Amodau</p>	 <p>Cod Ymddygiad Cymhorthydd Personol</p>	 <p>Cwestynau Cyffredin</p>	 <p>Hyfforddiant</p>
--	---	--	---

direct payments

CYFLEOEDD SWYDDI CYNORTHWYR PERSONOL

- Ydych chi ar gael i weithio?
- Newydd i'r rôl neu gyda phrofiad blaenorol?
- Chwilio am oriau llawn amser neu ran-amser?
- Ychwanegwch eich profil at ein Cofrestr PA i gyd-fynd â'ch rôl berffaith

www.sirfflint.gov.uk/porthcp

CYFLOGWYR DP SY'N AWYDDUS I RECRIWTIO

- Ydych chi'n chwilio am Gynorthwyo Personol?
- Gweld y profiliau ar ein Cofrestr CP i ddod o hyd i'r CP cywir i chi

www.sirfflint.gov.uk/porthcp

Cylogir PAs gan Gyflogwyr Taliadau Uniongyrchol
I gael rhagor o wybodaeth am Taliadau Uniongyrchol ewch i'n gwefan



Gwerthfawrognw unrhwy adborth ynglŷn ag unrhwy un o'n gwasanaethau, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol.

GUIDANCE SUPPORT ADVICE

01352 701100
dp.support@flintshire.gov.uk



Mae'r Tîm Cefnogi Taliadau Uniongyrchol ar Facebook ac ar Twitter. Llwyfan ar gyfer rhannu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth.

Hoffwch ein tudalen ar Facebook neu dilynwch ni ar Twitter.
Facebook [Flintshire Direct Payment Support](#)
Twitter [@FCCDPST](#)

Dysgu Ar-lein ar gyfer Cymorthyddion Personol

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithio mewn partneriaeth â Grey Matter Learning, darparwr achrededig Canolfan o Ragoriaeth, er mwyn darparu ffyrdd hyblyg a hygyrch o ddysgu ar-lein.



Rydym ni wedi creu "Tystysgrif Ymsefydlu Cymhorthydd Personol" sy'n cynnwys 7 modiwl craidd.

1. Sgiliau Cyfathrebu
2. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
3. Sgiliau Cymorth Cyntaf
4. Iechyd a Diogelwch
5. Atal a Rheoli Haint
6. Gofal sy'n canolbwyntio ar yr Unigolyn
7. Diogelu

Mae hefyd dros 50 o gyrsiau eraill yn ymwneud â phynciau gofal cymdeithasol y gall dysgwyr gael mynediad atynt er mwyn gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau, neu dderbyn cydnabyddiaeth am wybodaeth sydd ganddynt eisoes, ac i wella eu proffil. Bydd tystysgrifau yn cael eu rhoi i'r dysgwr ar gyfer pob cwrs y maent yn eu cwblhau. Mae posib eu lawrlwytho a'u cadw ar gyfer eu CV.

Diolch am eich amser. Os hoffech chi ragor o wybodaeth ynglŷn â'r diweddariadau yma neu os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, cysylltwch â ni